

# Cyhoeddiadau

## YR OFALAETH

**Nos Fercher, Ionawr 28:** Cynhelir Cyfarfod Chwarter yr Annibynwyr yng Nghapel Coffa, Cyffordd Llandudno am 7.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn.

## CEFNYWAUN AC EBENESER

**Nos Lun, Ionawr 26:** Y Gymdeithas Undebol yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Chwefror 1:** Gwasanaethir am 9.30 o'r gloch gan y Gweinidog a chynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

## CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Sul, Chwefror 1:** Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan Andrew Settatee. Cynhelir yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

## REHOBOTH

**Dydd Sul, Chwefror 1:** Gwasanaethir gan y Gweinidog am 2.00 o'r gloch.

## BETHLEHEM

**Dydd Sul, Chwefror 1:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

## CARMEL

**Dydd Llun, Ionawr 19:** 'Gwaith Llaw' yn y festri rhwng 2.00 a 4.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Ionawr 30:** 'Dwylo Prysus' am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Chwefror 1:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

## CYNLLUN EFE

**Dydd Gwener, Ionawr 30:** Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



## Y mis nesaf - Deiniolen

### Chwefror 1

9.30 a.m. - Y Gweinidog  
10.15 a.m. - Ysgol Sul

### Chwefror 8

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

### Chwefror 15

10.00 a.m. - Oedfa Deulu  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

### Chwefror 22

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd C Williams

## Y mis nesaf - Llanberis

### Chwefror 1

10.00 a.m. - Andrew Settatee  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Andrew Settatee

### Chwefror 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

### Chwefror 15

10.00 a.m. - Y Parchg W R Williams  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg M Williams

### Chwefror 22

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 622 Dydd Sul, 25 Ionawr, 2015

## Tra bo dau?

Wn i ddim faint o gardiau a blodau y bydd pobl wedi eu rhoi i'w hanwyliaid heddiw, na faint o brydau bwyd neu focsyt siocled fydd wedi eu rhannu a'u bwyta. Wn ddim chwaith faint o bobl sy'n gyfarwydd â'r stori am y ferch a roddodd ei henw i'r Dydd Gŵyl Santes Dwynwen a ddethlir ar y pumed ar hugain o Ionawr bob blwyddyn. Stori drist yw honno mewn gwirionedd am ferch ifanc a syrthiodd mewn cariad ac a ddiodefodd ac a ddymunodd beidio â phriodi wedi hynny. Ond er ei siom bersonol, daeth Dwynwen i ddeisyfu bendith Duw ar gariadon. Hi, meddir, yw santes cariadon Cymru, a rhoddwyd mwy a mwy o sylw i'w dydd gŵyl y blynyddoedd diwethaf hyn. Heddiw, felly, fe glywn ni lawer ar y teledu a'r radio am Dwynwen a'r Ŵyl. Fe glywn lawer hefyd mae'n debyg am y 'cariad pur' hwnnw 'sydd fel y dur, yn para tra bo dau'.

Beth bynnag a ddywedwn am y cariad a ddethlir heddiw â cherdd a cherdyn a chusan, mae gennym yn yr Efengyl gariad mwy a gwell i'w gyhoeddi ac i ddiolch amdano. Ac un peth sy'n sicr yn dangos rhyfeddod cariad Duw yw'r ffaith mai cariad yw hwn 'sy'n para tra bo Un'. Oherwydd cariad un-ochrog yn ei hanfod yw cariad Duw. Ac yn ei hanfod wrth gwrs, fel y dywed Ioan wrthym, 'cariad yw Duw' (1 Ioan 4:8). Nid yw cariad Duw atom yn dibynnu ar yr hyn ydym ni nac ar yr hyn a wnawn ni. Mae Duw yn ein caru am ei fod yn dewis gwneud hynny. Mae'n ein caru heb i ni haeddu hynny. Mae'n ein caru

er gwaetha'r ffaith fod yna bob math o resymau dros iddo beidio â gwneud hynny. Mae'r Duw Mawr yn caru am mai cariad ydyw.

Mor wahanol yw gwir gariad pur Duw i'r cariad 'sy'n para tra bo dau'. Ar ei orau, gall y math o gariad a ddethlir heddiw ein hatgoffa o gariad Duw. Ond nid yr un peth ydyw. Rydym ni'n caru am fod rhywbeth – prydfwerthwch golwg, neu anwylydeb, neu harddwch cymeriad, neu'r pethau rhyfeddaf o bosibl – wedi ennyn y cariad hwnnw. Ond mae Duw'n caru er nad oes dim ynom sy'n ennyn ei gariad.

Ac y mae cariad Duw yn para nid 'tra bo dau' ond 'tra bo Un'. Gall y cariad mwyaf eirias oeri, a hynny am bob math o resymau. Mae serch cariadon yn sicr yn marw os nad yw'r ddau'n ei deimlo a'i ddangos. Ond mae cariad Duw'n para am nad yw'n dibynnu ar ein cariad ni ato Ef. Mae Duw eisiau i ni ei garu; mae Duw'n rhoi gras i ni i'w garu; mae gennym fel Cristnogion awydd i'w garu. Ond nid dyna sail ei gariad Ef atom.

Bydd cofio hynny'n ein gwneud ni'n ostyngedig. Feiddiwn ni ddim am un eiliad feddwl ein bod yn haeddu cariad Duw. Bydd hefyd yn ein gwneud yn ddiolchgar am gariad un-ochrog ac eithafol Duw sydd wedi gwneud iddo roi ei Fab Iesu Grist yn aberth trosom ar Galfaria. A bydd yn ein gwneud yn bobl sy'n fwy awyddus fyth i garu Duw am iddo Ef yn gyntaf ein caru ni.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad heddiw. On'd ydi hi'n anodd credu ein bod wedi cyrraedd Sul olaf mis Ionawr yn barod!

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas. Wrth ei groesawu atom unwaith eto, diolchwn am ei wasanaeth.

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch. Nid oes oedfa heno.

Bydd Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Rehoboth.

## Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

## Cymdeithas Undebol

Cynhelir Cymdeithas Undebol Deiniolen am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Ionawr 26 yn Nhŷ Elidir.

Bydd y cyfarfod hwn yng ngofal y Gweinidog, ac estynnir croeso cynnes i chi yno.

## Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon yng Nghapel Coffa, Cyffordd Llandudno am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Ionawr 28. Bydd Mr Cynrig Hughes. Peniel, Pentir yn trosglwyddo'r gadeiryddiaeth i'r Parchg Gareth Edwards, Capel Coffa. Yn wahanol i'r hyn a ddywedwyd y Sul diwethaf, Mr Cynrig Hughes fydd yn traddodi'r anerchiad.

Cyfarfu aelodau Pwyllgor Bugeiliol y Cyfarfod Chwarter â Swyddog Cynnal ac Adnoddau newydd yr Annibynwyr yng Ngogledd Cymru, y Parchg Casi Jones, Clynnog, fore Llun diwethaf. Mae cyfarfod arall wedi ei drefnu ar gyfer canol Chwefror er mwyn parhau'r drafodaeth a gweld ym mha ffordd y bydd y swydd newydd yn gwasanaethu'r Cyfundeb a'i eglwysi.

## 'Gwaith Llaw'

Bnawn yfory, ddydd Llun, Ionawr 26, bydd 'Dosbarth Gwaith Llaw' yn festri Carmel, Llanllechid rhwng 2.00 a 4.00 o'r gloch.

## Marwolaeth

Bu farw Mrs Elizabeth Griffith, 15 Ffordd Deiniol, Deiniolen echdoe, dydd Gwener, Ionawr 23 yn 95 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i'w theulu. Cynhelir ei hangladd ddydd Iau, Ionawr 29 yn yr Amlwgfa ym Mangor am 3.00 o'r gloch. Boed i'r teulu brofi nerth a chysur Duw mewn ffordd amlwg yr wythnos hon.

## Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir y Cyfarfod Gweddi nesaf yn nhy Andrew Settatree, Cartref, Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener, Ionawr 30.

Croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am ddod bob wythnos os nad yw'n hwylyus wrth gwrs.

## CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch echnos a diolch yn fawr i Andrew am baratoi ac arwain y cyfan, ac i Trystan a Nia Thomas am eu help iddo.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu'r Parchg Eryl Lloyd Davies, Llanrwst a fu farw fore Llun diwethaf, Ionawr 19. Bu'n weinidog yn Ebeneser Deiniolen am dair blynedd o 1975 hyd 1978. Symudodd oddi yno i'r De, i Glyn Nedd. Wedi cyfnod byr o ryw dair blynedd arall yn y fan honno, dychwelodd i'r Gogledd. Bu'n weinidog yng nghapel Tabernacl, Llanrwst ac eglwysi eraill ei Ofalaeth ers 1997.

Cydymdeimlwn â'i briod Glenys a'r plant a'r holl deulu yn eu hiraeth a'u colled. Cynhaliwyd ei angladd fore ddoe.

## Pwyllgor Efe

Cynhelir pwyllgor Ymddiriedolwyr Efe yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Lun, Chwefror 2.

## Dosbarth Beiblaidd

Bydd y Dosbarth Beiblaidd a gynhelir yn Yr Haciau, Penisarwaun yn ail ddechrau wythnos i nos Fercher, nos Fercher, Chwefror 4, am 7.00 o'r gloch.

## Cwrs Ieuencid

Cynhelir Cwrs Ieuencid (11-16 oed) yng Ngholeg y Bala o nos Wener hyd ddydd Sul, Chwefror 20-22.

Mae'r manylion llawn a'r ffurflenni gan Andrew Settatree. Bydd angen archebu lle yn fuan cyn bod y lle yn llawn.

## Llanw

Eleni am y tro cyntaf cynhelir Gŵyl Llanw yn y Gogledd, yng Nghricieth yn ystod yr wythnos wedi'r Pasg (Ebrill 6-10). Daw rhagor o fanylion yn fuan.

## Gronyn

Byddaf yn falch o dderbyn unrhyw bwt o newyddion neu gyhoeddiad ar gyfer *Gronyn* erbyn nos Iau bob wythnos.

Bydd hynny'n help mawr wrth ei baratoi bob wythnos.

## Gwefan Gronyn

Cofiwch eto am wefan yr Ofalaeth, sy'n sôn am ein hamrywiol weithgareddau.

Fe welir cyfeiriadau'r Ofalaeth yn y blwch ar y dudalen gyferbyn:

[gronyn.wordpress.com](http://gronyn.wordpress.com)  
neu  
[gronyn.org](http://gronyn.org)